Y Gwasanaeth Tân ac Achub	Rheoleiddiwr Gweinyddwr Y Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol	Rheoleiddiwr	Blynyddol	£ 30.95	453	463	474		543	555
Y Gwasanaeth Tân ac Achub	Rheoleiddiwr Rheolwr Gorsaf Y Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol	Rheoleiddiwr	Blynyddol	£ 88.63	26	27	27		31	32
Y Gwasanaeth Tân ac Achub	Rheoleiddiwr Rheolwr Gwylfa Y Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol	Rheoleiddiwr	Blynyddol	£ 64.51	3,428	3,506	3,587		4,111	4,206
Awdurdod Cynllunio Lleol	Swyddog cynllunio rheoleiddiwr	Rheoleiddiwr	Blynyddol	£ 51.39	2,546	2,605	2,665		3,054	3,125
Porth 1	Cyfanswm	Diwydiant			11,505	11,769	12,040		13,800	14,118
Porth 1	Cyfanswm	Rheoleiddiwr			6,453	6,601	6,753		7,740	7,918
Porth 1	Cyfanswm	Cyfanswm			17,957	18,370	18,793		21,540	22,036

6. Canlyniadau

- 6.1 Mae'r adran hon yn crynhoi costau a buddion amcangyfrifedig y newidiadau polisi arfaethedig gyda gwerth ariannol a heb werth ariannol.
- 6.2 Mae'r dadansoddiad yn rhannu'r costau rhwng 'diwydiant', sy'n cynnwys datblygwyr adeiladau, dylunwyr, gosodwyr a pherchnogion adeiladau a 'rheoleiddwyr' sy'n cynnwys awdurdodau cynllunio lleol, cyrff rheoli adeiladu a'r gwasanaeth tân.
- 6.3 Mae'r dadansoddiad hefyd yn rhannu costau rhwng 'costau pontio', sy'n cynnwys costau ymgyswddo â'r cynigion, recriwtio a hyfforddiant i ymgymryd â swyddogaethau newydd, a 'costau blynyddol' sy'n cynnwys costau parhaus y diwydiant i gydymffurfio â'r newidiadau polisi arfaethedig a rheoleiddwyr sy'n gorfodi'r gofynion ychwanegol.

Costau

Amcangyfrif o gostau gwerth presennol 10 mlynedd ar gyfer yr Opsiynau Arfaethedig (£m)

- 6.4 Mae Tabl 6.1 yn dangos amcangyfrif o'r costau ychwanegol gwerth presennol dros 10 mlynedd ar gyfer y newidiadau arfaethedig gan gynnwys amcangyfrif isel ac uchel o gostau. Yr amcangyfrif canol o gostau polisi gyda gwerth ariannol yw £107.22m dros 10 mlynedd (isel: £84.42m; amcangyfrif uchel: £130.08m). Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd y rhan fwyaf o'r costau yn gostau blynyddol parhaus ar ddiwydiant.
- 6.5 Mae cyfanswm y costau blynyddol a amcangyfrifir ar gyfer adeiladau nad ydynt yn risg uwch yn fwy nag ar gyfer adeiladau risg uwch oherwydd y gwahaniaeth yn nifer yr adeiladau yr effeithir arnynt. Bob blwyddyn, mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd 4 neu 5 Adeilad Risg Uchel newydd y flwyddyn o'i gymharu â dros 6,000 o adeiladau newydd nad ydynt yn Risg Uchel y flwyddyn.

Tabl 6.1: Cyfanswm Costau Gwerth Presennol dros 10 Mlynedd (£miliwn)				
		Isel	Canolig	uchel
Adeiladau Risg Uwch - Costau Polisi				
Diwydiant	Pontio	£0.14m	£0.28m	£0.41m
Rheoleiddiwr	Pontio	£0.01m	£0.03m	£0.05m
Diwydiant	Blynyddol	£4.75m	£7.27m	£9.84m
Rheoleiddiwr	Blynyddol	£0.90m	£1.36m	£1.84m
Adeiladau nad ydynt yn Risg Uchel - Costau Polisi				
Diwydiant	Pontio	£5.50m	£6.87m	£8.25m
Diwydiant	Blynyddol	£73.13m	£91.41m	£109.70m
Cyfanswm y Costau		£84.42m	£107.22m	£130.08m

- 6.6 Mae'r costau gyda gwerth ariannol yn Nhabl 6.1 yn cynnwys amcangyfrif o gostau ychwanegu 4 wythnos at y cyfnod dylunio ac adeiladu nodweddiadol ar gyfer Adeiladau Risg Uchel newydd o'i gymharu â'r gwrth-ffeithiol, i ddarparu ar gyfer y newidiadau polisi arfaethedig. Mae'r dadansoddiad yn tybio y bydd angen amser ychwanegol i gwblhau dyluniadau adeiladu cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau o'i gymharu â'r gwrth-ffeithiol lle mae rhywfaint o waith dylunio yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r amcangyfrif gyda gwerth ariannol yn tybio bod y trefniadau pontio yn caniatáu i'r gofynion newydd gael eu gweithredu heb y newidiadau sy'n arwain at oedi ychwanegol ar bwyntiau penderfyniadau allweddol.

Costau heb werth ariannol

- 6.7 Fodd bynnag, yn y tymor byr, os bydd cyflwyno'r polisi yn anoddach, efallai y bydd costau ychwanegol nad ydynt wedi'u hasesu yn y dadansoddiad hwn. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys:
- Mwy o oedi gyda phrosiectau os yw'n profi'n anoddach i ddiwydiant a rheoleiddwyr ymgyswrtio â'r gofynion newydd;
 - Mwy o oedi gyda phrosiectau, os bydd y broses Porth yn effeithio ymhellach ar amserlenni cyflawni prosiectau a/neu arwain at heriau cyfreithiol neu oblygiadau cytundebol.

Amcangyfrif o'r costau Gwerth Presennol dros 10 mlynedd ar gyfer yr Opsiynau Arfaethedig yn ôl maes polisi manwl (£m)

Adeiladau Risg Uchel – costau polisi

- 6.8 Mae Tablau 6.2 a 6.3 yn dangos amcangyfrif o gostau gwerth presennol dros 10 mlynedd yr opsiynau arfaethedig ar gyfer Adeiladau Risg Uwch.
- 6.9 Mae Tabl 6.2 yn dangos y costau wedi'u rhannu yn ôl ***Elfen Polisi***:
- Mae'r tabl yn dangos bod yr amcangyfrif canol ar gyfer cost y newidiadau arfaethedig o ran adeiladau risg uwch yn £8.93m dros 10 mlynedd (amcangyfrif isel: £5.79m; amcangyfrif uchel £12.14m);
 - Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd mwyafrif y costau ychwanegol (£5.57m) yn digwydd o ganlyniad i'r newidiadau i'r broses ddylunio a chymeradwyo adeiladau ar gyfer adeiladau risg uwch drwy broses gymeradwyo'r Porth.

Tabl 6.2: Amcangyfrif o gostau gwerth presennol dros 10 mlynedd ar gyfer Adeiladau Risg Uwch (£m)			
	Isel	Canolig	uchel
Pyrth	£3.33m	£5.57m	£7.81m
Adrodd Gorfodol	£0.03m	£0.04m	£0.05m
Gofynion deiliad dyletswydd	£0.91m	£1.17m	£1.43m
Edau Aur	£0.20m	£0.44m	£0.65m
Sanctsiynau	£0.67m	£0.83m	£1.00m

Llais y Preswylwyr	£0.32m	£0.45m	£0.68m
Apelau	£0.02m	£0.04m	£0.08m
Adnewyddu	£0.31m	£0.38m	£0.44m
Cyfanswm	£5.79m	£8.93m	£12.14m

6.10 Mae Tabl 6.3 yn dangos y costau wedi'u rhannu yn ôl **elfen bolisi a sefydliad**:

- Mae'r tabl yn dangos y bydd y rhan fwyaf o'r costau ychwanegol yn cael eu hwynebu gan y diwydiant (amcangyfrif canol £7.51 miliwn) a chyrrff rheoli adeiladu (amcangyfrif canol £1.01 miliwn) ar gyfer adeiladau risg uwch.

Tabl 6.3: Amcangyfrif Canolig Costau Gwerth Presennol dros 10 Mlynedd ar gyfer Adeiladau Risg Uwch (£m) – yn ôl sefydliad						
	Diwydiant	Cyrrff Rheoli Adeiladu (BCB)	Awdurdod Tân ac Achub (FRA)	Awdurdod Cynllunio Lleol	Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd	Llywodraeth Cymru (LIC)
Pyrth	£4.52	£0.80	£0.16	£0.03	£0.00	£0.00
Adrodd Gorfodol	£0.01	£0.03	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Gofynion deiliad dyletswydd	£1.07	£0.02	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Edau Aur	£0.37	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Sancsiynau	£0.61	£0.09	£0.10	£0.00	£0.03	£0.00
Llais y Preswylwyr	£0.36	£0.00	£0.00	£0.00	£0.02	£0.00
Apelau	£0.02	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.01
Adnewyddu	£0.30	£0.07	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Ymgysgwrthwyo a recriwtio	£0.25	£0.00	£0.04	£0.00	£0.01	£0.00
Cyfanswm	£7.51	£1.01	£0.30	£0.03	£0.06	£0.01

Adeiladau Risg Uwch - costau polisi

- 6.11 Mae Tablau 6.4 yn dangos amcangyfrif o gostau gwerth presennol 10 mlynedd yr opsiynau arfaethedig ar gyfer **adeiladau nad ydynt yn risg uwch** (amcangyfrif canolig £98.29m).
- 6.12 Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd y costau mwyaf sylweddol yn cael eu hwynebu gan brif ddylunwyr i gasglu'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i ddangos cydymffurfiaeth (amcangyfrif canolig: £65.23 miliwn) a'r prif gontractwyr i benderfynu sut i ddangos cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu (amcangyfrif canolig: £13.05m).

Tabl 6.4: Amcangyfrif o gostau gwerth presennol dros 10 mlynedd ar gyfer Adeiladau nad ydynt yn Risg Uwch (£m)			
	Isel	Canolig	uchel
Ymgysfaryddo â gofynion newydd	£5.50m	£6.87m	£8.25m
Pob cwmni - diwygio prosesau, cwmmpas gwasanaethau a chontractau	£1.13m	£1.41m	£1.69m
Prif Ddylunwyr – casglu gwybodaeth gydymffurfio ychwanegol ynghyd	£52.19m	£65.23m	£78.28m
Dylunwyr - darparu gwybodaeth i'r Prif Ddylunydd	£3.89m	£4.86m	£5.83m
Prif Gontractwyr – penderfynu sut i ddangos cydymffurfiaeth ar gyfer prosiectau	£10.44m	£13.05m	£15.66m
Contractwyr - darparu gwybodaeth i'r Prif Gontractwr	£1.58m	£1.97m	£2.37m
Cleient - gwiriadau cymhwysedd	£3.91m	£4.89m	£5.87m
Cyfanswm	£78.63m	£98.29m	£117.94m

Costau polisi wedi'u rhannu yn ôl math o adeilad

- 6.13 Mae Tabl 6.4 yn dangos yr amcangyfrif o Gost Polisi Ychwanegol fesul Adeilad a fesul annedd. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y bydd y polisi arfaethedig yn ychwanegu costau o £143,000 fesul adeilad ar gyfer adeilad risg uwch newydd, neu gyfartaledd o £2,300 fesul fflat. Ar gyfer adeiladau nad ydynt yn risg uwch, amcangyfrifir bod y costau polisi ychwanegol yn £500 fesul annedd. Disgwylir i fwyaf y costau ychwanegol gael eu hwynebu gan ddatblygwyr ac adeiladwyr tai. Mae'r costau yn annhebygol o gael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i brynwyr cartrefi oherwydd bod prisiau tai fel arfer yn cael eu gosod mewn perthynas â phrisiau yn y farchnad leol.

Tabl 6.4: Cost Polisi Ychwanegol cyfartalog fesul Adeilad a fesul annedd.		
	Amcangyfrif o gost ychwanegol fesul datblygiad	Amcangyfrif o gost ychwanegol fesul annedd
Adeilad Risg Uchel (63 annedd) - adeilad newydd	£143,200	£2,300
Adeilad Risg Uchel (63 annedd) - adnewyddu	£28,400	£500
Datblygiad preswyl nad yw'n Adeilad Risg Uchel (20 annedd) - adeilad newydd	£9,200	£500
Adeiladau annomestig (swyddfeydd, manwerthu, gwestai ac ati) – adeilad newydd	£5,800	Amh.

Buddion

- 6.14 Bydd y cynigion polisi yn cyflwyno newidiadau i'r gwaith dylunio ac adeiladu ar gyfer Adeiladau Risg Uchel a gwaith adeiladu arall a fydd yn arwain at:

- Fwy o oruchwyliaeth o waith adeiladu;
- Mwy o ddyletswyddau ac atebolrwydd mwy eglur i'r rhai sy'n dylunio ac adeiladu adeiladau, a
- Chamau gorfodi llymach yn erbyn gwaith nad yw'n cydymffurfio.

6.15 Disgwylir i fanteision y newidiadau hyn gynnwys:

- Adeiladau mwy diogel a fydd yn lleihau'r risg o ledaenu tân a digwyddiadau strwythurol;
- Lleihau'r risg y bydd problem systemig arall yn digwydd, o faint tebyg i'r mater cladin allanol diffygiol, a thrwy hynny osgoi'r gost o ddatrys y broblem e.e. adfer;
- Bydd annog mwy o oruchwyliaeth o waith adeiladu hefyd yn cynnig buddion i'r diwydiant adeiladu a pherchnogion adeiladau o ran gwaith adeiladu o ansawdd gwell.

Lleihau'r risg o ledaenu tân a digwyddiadau strwythurol

6.16 Mae'r cynigion sy'n ymwneud â dylunio ac adeiladu yn ategu'r cynigion a gyflwynwyd i wella diogelwch mewn adeiladau gyda meddiannaeth. Bydd lleihau'r risg o ledaenu tân a digwyddiadau strwythurol yn lleihau effaith y ffactorau hyn o ran anafiadau, difrod i eiddo ac effeithiau ar iechyd meddwl. Yn ogystal, bydd llai o risg yn tawelu meddwl preswylwyr ac yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi.

Lleihau'r gost o ddatrys problemau systemig yn y dyfodol

6.17 Bydd y cynigion yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd deunyddiau diffygiol a pheryglus yn cael eu gosod yn systematig ar draws adeiladau yng Nghymru yn y dyfodol, a fydd yn osgoi costau adfer y rhain a'r aflonyddwch cysylltiedig. Mae'r rhaglen adfer adeiladau bresennol yng Nghymru wedi bod yn angenrheidiol oherwydd bod y cladin a osodwyd ar sawl adeilad yn ddiffygiol ac yn peri risg i breswylwyr. Mae'r rhesymau pam y gosodwyd cladin diffygiol yn amlochrog ond gellid bod wedi cael eu hatal gan oruchwyliaeth gryfach yn ystod y dyluniad a'r gwaith i osod y cladin. Mae'r costau adfer cladin yn sylweddol:

- Mae dros 450 o adeiladau yng Nghymru wedi cael eu nodi fel rhai sydd â risg diogelwch sydd angen eu hadfer gyda chostau dros £200m;
- Ar gyfer Adeilad Risg Uchel nodweddiadol, amcangyfrifir bod cost gyfartalog adfer 3,000 metr sgwâr o gladin yn £4.5m fesul adeilad⁵.

6.18 Bydd y polisi yn helpu i atal problemau systemig yn y dyfodol.

Buddion anuniongyrchol i'r diwydiant adeiladu

⁵ [Cladding remediation unit costs: analysis of high-rise non-ACM buildings - GOV.UK](https://www.gov.uk/government/research-data-and-analysis/publications/cladding-remediation-unit-costs-analysis-of-high-rise-non-acm-buildings)

- 6.19 Disgwylir hefyd y bydd annog diogelwch adeiladu i gael ei ystyried yn gynharach ac yn fwy manwl yn y broses ddylunio yn lleihau faint o waith ail-ddylunio y bydd angen ei wneud ymhellach yn y rhaglen adeiladu.
- 6.20 Bydd y cynnydd mewn casglu a rhannu gwybodaeth yn golygu y bydd gan berchnogion adeiladau lawer mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei osod yn eu hadeilad a fydd yn lleihau'r gofyniad am arolygon ymwithiol yn y dyfodol. Mae'r nifer fawr o arolygon ymwithiol costus ac aflonyddgar sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn rhannol o ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth am ba gynhyrchion a deunyddiau a ddefnyddiwyd wrth adeiladu'r adeilad.
- 6.21 Disgwylir y bydd y lefel uwch o oruchwyliaeth a gwirio a fydd yn digwydd yn ystod y broses o ddylunio ac adeiladu adeilad yn arwain at arbedion cost trwy leihau nifer y diffygion sy'n digwydd yn ystod ac ar ddiwedd y broses adeiladu. Mae gwaith ymchwil wedi nodi bod rhwng 5 a 21% o gostau gwaith adeiladu cyfredol fel arfer oherwydd yr angen i gywiro diffygion. Mae hyn yn cynnwys costau ail-wneud gwaith nad oedd wedi'i osod yn gywir a hefyd costau mynd i'r afael â diffygion adeiladu cudd sydd ond yn dod i'r amlwg yn ystod meddiannaeth⁶. Disgwylir i'r gwiriadau cynyddol sy'n gysylltiedig â diogelwch helpu i leihau faint o waith diffygiol sy'n cael ei wneud.

Buddion gyda gwerth ariannol - Adeiladau Risg Uchel

- 6.22 Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd 80 o adeiladau risg uwch yn cael eu hadeiladu neu eu hadnewyddu yng Nghymru o dan y drefn newydd yn ystod y cyfnod polisi 10 mlynedd:
- Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif gwerth costau ail-wneud y gellid eu hosgoi o ganlyniad i newidiadau diogelwch a mwy o oruchwyliaeth wrth adeiladu'r rhain. Amcangyfrifir y bydd y cynigion gyda'i gilydd yn sicrhau arbedion o **£1.08m o ran osgoi costau ail-wneud gwaith dros gyfnod polisi o 10 mlynedd**;
 - Hefyd, ar y rhagdybiaeth bod y polisi yn helpu i osgoi problem gyda deunyddiau adeiladu systemig ar raddfa debyg, megis cladin ACM, bydd yr arbedion costau'n sylweddol. Roedd cladin ACM diffygiol wedi'i osod ar 3% o adeiladau yn Lloegr. Os tybir y bydd y polisi yn lleihau'r risg y bydd deunydd adeiladu diffygiol ar raddfa debyg yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru yn y dyfodol gan, er enghraifft, 50%, byddai'r costau adfer a osgoir yng Nghymru oddeutu **£2.89m**.

Adeiladau Risg Uchel - buddion heb werth ariannol

- 6.23 Amcan y cynigion, ynghyd â mesurau eraill, yw sicrhau nad yw trychineb arall tebyg i dân Tŵr Grenfell, byth yn digwydd eto. Amcangyfrifir bod colledion/cost llawn tân Tŵr Grenfell dros £1 biliwn. Yn ogystal, ceir hefyd y costau ehangach i gymdeithas yn dilyn y tân o ran mwy o bryder sy'n gysylltiedig â risg iddo ddigwydd eto. Mae'r pryder yn berthnasol i bob preswlydd sy'n byw mewn adeiladau uchel, mae'n barhaus a bydd yn effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r cynigion hyn ar y cyd â mesurau diogelwch adeiladu eraill yn helpu i leihau lefel y pryder/gorbryder, gan wella bywydau miloedd o breswylwyr yn sylweddol. Mae'r trychineb diweddar yn Hong Kong, er ei fod yn wahanol o ran natur ac wedi'i achosi gan ffactorau gwahanol, yn cynyddu lefel pryder/gorbryder preswylwyr adeiladau uchel ar draws y gwaith. I breswylwyr yng Nghymru, mae gwybod bod ystod o fesurau ar waith a fydd yn atal trychineb ar raddfa debyg rhag digwydd iddynt, yn werthfawr iawn, ac er ei fod yn anodd rhoi gwerth ariannol arno, mae'n dal i fod yn arwyddocaol.

⁶ [Home | Get It Right Initiative](#)

6.24 Mae sawl rheswm pam ei bod yn anodd priodoli'r holl fanteision o osgoi digwyddiad arall tebyg i'r cynigion hyn:

- Y dull arfarnu nodweddiadol o amcangyfrif manteision o'r natur hon yw cyfrifo pa mor aml y mae digwyddiadau yn digwydd heb ymyrraeth ac amcangyfrif y gostyngiad yng ngraddfa neu amllder digwyddiad o ganlyniad i'r cynigion. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod beth yw'r tebygolrwydd y bydd digwyddiad ar raddfa Grenfell yn digwydd eto heb ymyrraeth. Mae defnyddio rhagdybiaethau a wnaed yn flaenorol ynglŷn ag amllder⁷ hyd at gost o £1 biliwn yn awgrymu bod gwerth blynyddol y risg yn amrywio o £2,000 – £27,000 fesul adeilad bob blwyddyn. Felly, mae'r tebygolrwydd y bydd digwyddiad tebyg yn digwydd yn y cyfnod arfarnu polisi yn fach, sy'n golygu mai dim ond cyfran o'r budd o osgoi digwyddiad o'r fath y gellir ei ystyried yn y dadansoddiad o fuddion. Dyna yw natur methodoleg tebygolrwydd. Ond, er bod y tebygolrwydd o ddigwyddiad tebyg yn digwydd yn y cyfnod arfarnu polisi yn fach, mae'n bosibl y gallai ddigwydd, a phe byddai'n digwydd o ganlyniad i absenoldeb y cynigion hyn a mesurau eraill, byddai'r holl £1 biliwn wedi cael ei osgoi. Ond, mae methodoleg gwerthuso ffurfiol yn caniatáu i'r asesiad ystyried ffraciwn o hyn yn unig, fel yr eglurwyd uchod
- Yn ail, mae methodoleg gwerthuso yn ei gwneud yn ofynnol y bydd cyfran uchel o werth unrhyw golledion a osgoir yn y dyfodol o ganlyniad i atal digwyddiad mawr rhag digwydd, os digwyddodd o fewn y cyfnod arfarnu polisi, yn cael ei briodoli i'r ystod o fesurau diogelwch adeiladu eraill sydd wedi'u cyflwyno yn ychwanegol at y rhai sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn (sef y cynigion **cyfnod dylunio ac adeiladu**). Mae'r mesurau eraill hyn yn berthnasol i **gyfnod meddiannaeth yr adeilad** (yn hytrach nag i'r cyfnod adeiladu) ac yn cynnwys er enghraifft paratoi achosion diogelwch, newidiadau i bolisi gwacáu Y Gwasanaeth Tân ac Achub, mesurau interim fel goruchwyliaeth effro a chael gwared ar gladin fflamadwy. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn chwarae rhan sylweddol wrth atal digwyddiad rhag digwydd yn y dyfodol, ac felly mae methodoleg gwerthuso yn gofyn bod cyfran sylweddol o werth colled a osgoir yn y dyfodol yn cael ei briodoli i'r mesurau cyfnod meddiannaeth hyn. Nid yw hyn yn gwneud y mesurau cyfnod adeiladu yn y cynnig hwn yn llai pwysig, ond mewn cyd-destun cyfrifyddu, mae'r buddion yn cael eu rhannu ar draws pob mesur.
- Ac, fel y nodwyd, bydd yr holl fesurau hyn yn lleihau lefel pryder preswylwyr yn sylweddol, gan arwain at welliannau sylweddol (p'un a oes tân yn eu hadeilad ai peidio). Ond, ar y pwynt hwn, nid yw wedi bod yn bosibl rhoi gwerth penodol ar hyn gan nad yw wedi bod yn bosibl cael amcangyfrif digon cywir ynghylch i ba raddau y mae pobl yn gwerthfawrogi teimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r cam dylunio ac adeiladu.

Adeiladau nad ydynt yn Risg Uchel - (pob gwaith adeiladu ar adeiladau preswyl a masnachol) - buddion heb werth ariannol

⁷ Gan mai Grenfell yw'r unig ddigwyddiad ar y raddfa hon i ddigwydd yn y DU, mae'n anodd amcangyfrif y tebygolrwydd y bydd digwyddiad arall tebyg yn digwydd. Un dull yw tybio bod yr amllder hwn yn cynrychioli'r risg debygol y bydd y digwyddiad yn digwydd eto heb ymyrraeth. Mae dadansoddiad a gynhaliwyd ar gyfer asesiad y cyfnod meddiannaeth yn awgrymu y gallai'r risg hon amrywio o ddigwyddiad unwaith mewn 40 mlynedd (y cyfnod y mae'r mwyafrif o Adeiladau Risg Uchel wedi'u meddiannu) i ddigwyddiad unwaith mewn 3 blynedd (yn seiliedig ar ddadansoddiad dosbarthiad Poisson). Ar draws Cymru a Lloegr (tua 12,500 o Adeiladau Risg Uchel), amcangyfrifir bod y risg gyfartalog o ddigwyddiad yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn rhwng 2.0×10^{-6} a 3.8×10^{-4} fesul adeilad y flwyddyn.

- 6.25 Disgwylir i'r newidiadau arfaethedig ar gyfer gwaith adeiladu ar bob math arall o adeiladau arwain at dreulio amser ychwanegol yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau adeiladu a mabwysiadu arferion gwaith gwell a allai helpu i leihau'r angen i ail-wneud gwaith, diffygion cudd, arolygon ymwithiol - yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn y cyfnod meddiannaeth. Er enghraifft:
- Cleientiaid yn treulio mwy o amser yn gwirio cymhwysedd y tîm a benodir i wneud y gwaith dylunio ac adeiladu, a
 - Dylunwyr a chontractwyr yn treulio mwy o amser yn gwirio a chasglu tystiolaeth y bydd y dyluniad a'r gwaith yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu.
- 6.26 Disgwylir i'r amser ychwanegol a dreulir yn gwirio a chasglu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â rheoliadau adeiladu nodi a chywiro achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn dyluniadau a chynlluniau cyn i'r gwaith ddechrau. Disgwylir i hyn atal gwaith nad yw'n cydymffurfio rhag cael ei wneud, a allai arwain naill ai at orfod ail-wneud y gwaith os caiff ei ddarganfod yn ystod y gwaith adeiladu neu wneud gwaith i adfer diffygion yn hwyrach unwaith y bydd yr adeilad wedi'i feddiannu. O ganlyniad, mae'r dadansoddiad yn disgwyl y bydd yr angen i ail-wneud gwaith i gywiro gwaith adeiladu nad yw'n cydymffurfio yn lleihau. Yn ogystal, mae'r dadansoddiad yn rhagweld y bydd dylunwyr a chontractwyr yn fwy cymwys a hefyd yn llai tebygol o ddefnyddio cynhyrchion o ansawdd is rhag ofn y bydd y rhain yn arwain at ddiffyg cydymffurfio, ac y bydd ansawdd cyffredinol y gwaith adeiladu yn cynyddu (e.e. llai o broblemau gydag inswleiddio annigonol neu osod ffenestri gwael).
- 6.27 Ceir gwaith ymchwil sy'n galluogi'r dadansoddiad i gyfrifo cyfanswm y gwerth pe byddai modd osgoi pob gwall neu osgoi ail-wneud gwaith. Mae'r ymchwil yn amcangyfrif bod cyfran y costau adeiladu sy'n gysylltiedig â gwallau yn amrywio o 5% (swm y gost sy'n cael ei gofnodi gan gontractwyr) i 21% (amcangyfrifir ei fod yn cynnwys costau anuniongyrchol, costau heb eu cofnodi a diffygion cudd)⁸ – ond – nid oes digon o dystiolaeth ar gael i ddweud pa gyfran o hyn y gellir ei briodoli i'r cynigion hyn.

Newid gwerthoedd

- 6.28 Felly, defnyddiwyd dull 'amnewid gwerth'. Mae'r dull hwn yn cyfrifo gwerth costau a osgowyd o ran ail-wneud gwaith y byddai angen eu cyflawni er mwyn i'r polisi fod yn gost-niwtral (h.y. er mwyn i werth y buddion fod yn hafal i gostau polisi).
- 6.29 Yn seiliedig ar werth blyneddol amcangyfrifedig y gweithgarwch adeiladu a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad (£2.4bn) a'r gyfran amcangyfrifedig o gostau sy'n cynnwys camgymeriadau (5% i 21%), mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd angen i'r polisi leihau cyfanswm y gwastraff a'r gwallau ar brosiectau adeiladu rhwng 2.2% a 9.3% er mwyn i fanteision y cynigion fod yn fwy na'r costau dros gyfnod arfarnu 10 mlynedd.
- Mae'r dadansoddiad wedi cyfrifo gwerth dangosol ar gyfer gwall sy'n cael ei osgoi y bydd angen ei gyflawni. Gan dybio y bydd 20% o'r prosiect yn cyflawni gostyngiad mewn camgymeriadau, byddai angen i werth cyfartalog y costau a osgowyd fesul prosiect fod yn £7,400, sy'n cyfateb i 3.6% o gost annedd nodweddiadol⁹.

⁸ [Research Report | Get It Right Initiative](#)

⁹ Amcangyfrifir bod cost annedd newydd nodweddiadol yn £205,000.

7. Atodiad A: Porth Cynllunio 1

Gofyniad

7.1 Gofyniad Porth 1 i Ddatganiad Tân gael ei gyflwyno yn ystod y cam cynllunio.

Gweithgareddau tybiedig

- Cleientiaid i baratoi Datganiad Tân
- Y gwasanaeth tân a'r awdurdod cynllunio lleol i adolygu'r datganiad tân

7.2 Mae Tabl 7.1 yn nodi manylion y rhagdybiaethau cyffredin a ddefnyddir i gostio'r gweithgareddau sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofyniad Sefyllfa Diogelwch Tân:

Tabl 7.1: Rhagdybiaethau cyffredin a ddefnyddir i gostio'r gweithgareddau sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofynion Porth 1									
Swyddogaeth	#	Rheoleiddiwr / Diwydiant	Math o ragdybiaeth	Elfen	Rhagdybiaeth	Ffynhonnell gwybodaeth	Cyfundrefn bresennol a ddefnyddir fel dirprwy	Naratif sy'n esbonio'r rhesymeg i'r rhagdybiaeth gyffredinol	RAG
Porth 1	A009	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Amser fesul cais	Cyfanswm yr amser sydd ei angen ar bob cais adeilad newydd: 12 awr	Profiad PRP o weithio gyda chyrff rheoli adeiladu	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
Porth 1	A010	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Rhannu rhwng gwahanol reoleiddwyr	Awdurdod Cynllunio Lleol - 5 awr Corff Rheoli Adeiladau - 5 awr Awdurdod Tân ac Achub - 2 awr	PRP / Swyddfa Gartref / NFCC	Cynllunio	Oriau cyfartalog fesul rheoleiddiwr yn seiliedig ar dasgau a wneir gan ymgynghorwyr/swyddfa gartref i ymgymryd â rôl	

Porth 1	A011	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Datblygiadau a ganiateir	Bydd prosiectau trawsnewid swyddfa a datblygiadau a ganiateir sy'n ofynnol i fynd trwy Borth 1 yn gofyn am 100% o amser (a chost) adeilad newydd	Ystadegau ymgynghorydd / cynllunio	Cynllunio	Defnyddir barn ymgynghorydd am amser; ystadegau cynllunio ac ystadegau datblygiadau newydd i amcangyfrif cyfaint	
Porth 1	A012	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Amseroedd adnewyddu	Bydd prosiectau adnewyddu sy'n ofynnol i fynd trwy Borth 1 yn gofyn am 25% o amser (a chost) adeilad newydd	Barn yr ymgynghorydd	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
Porth 1	A013	Diwydiant	Adnoddau	Amser i baratoi datganiad tân	0% gwrth-ffeithiol – prosiectau sydd eisoes yn cynhyrchu datganiadau tân yn wirfoddol 2.5 diwrnod (19 awr) 0.5 diwrnod (4 awr) i adolygu'r datganiad tân (bydd 30% o geisiadau yn gofyn am hyn)	Profiad Diwydiant PRP ac Amcangyfrif Swyddfa Gartref yn seiliedig ar brofiad o weithio gyda Rheoli Adeiladu, a manyleb y datganiad tân	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)	Bydd cost i gynhyrchu datganiad tân yn ystod y cam cynllunio yn cynnwys cynhyrchu gwybodaeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynhyrchu fel arfer yn ddiweddarach yn y broses o baratoi cais rheoli adeiladu. Felly, mae'r gost o baratoi'r wybodaeth hon yn gymharol hysbys o'r profiad cyfredol.	

Porth 1	A014	Diwydiant	Adnoddau	Gweithgareddau	Peiriannydd Tân i gynhyrchu datganiad tân	Gofyniad polisi	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
Porth 1	A015	Diwydiant	Adnoddau	Rhannu rhwng swyddi	Peiriannydd Tân Cyfran o'r amser: 100%	Gweler A014	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
Porth 1	A016	Diwydiant	Adnoddau	Datblygiadau a ganiateir	Bydd prosiectau trawsnewid swyddfa a datblygiadau a ganiateir sy'n ofynnol i fynd trwy Borth 1 yn gofyn am 100% o amser (a chost) adeilad newydd	Gweler A011	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
Porth 1	A017	Diwydiant	Adnoddau	Amseroedd adnewyddu	Bydd prosiectau adnewyddu sy'n ofynnol i fynd trwy Borth 1 yn gofyn am 25% o amser (a chost) adeilad newydd	Gweler A012	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		

8. Atodiad B: Porth 2

Gofyniad

8.1 I gyflwyno cais Porth 2 cyn dechrau'r gwaith adeiladu

Adeiladau o fewn cwrmpas

8.2 Yn berthnasol i Adeiladau Risg Uchel yn unig

Gweithgareddau tybiedig

8.3 Mae Tabl 8.1 yn nodi manylion y rhagdybiaethau cyffredin a ddefnyddir i gostio'r gweithgareddau sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofyniad Porth 2.

Tabl 8.1: Rhagdybiaethau cyffredin a ddefnyddir i gostio'r gweithgareddau sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofynion Porth 2									
Swyddogaeth	#	Rheoleiddiwr / Diwydiant	Math o ragdybiaeth	Elfen	Rhagdybiaeth	Ffynhonnell gwybodaeth	Cyfundrefn bresennol a ddefnyddir fel dirprwy	Naratif sy'n esbonio'r rhesymeg i'r rhagdybiaeth gyffredinol	RAG
Cyfarfod cyn ymgeisio Porth 1-2	A018	Y ddau	Proffil	Cyfaint Cyflenwi	Amcangyfrifir bod gwaith Adeiladu o'r Newydd yn 2.3% o gyfanswm y stoc fesul blwyddyn	Gweler A005 ar gyfer cyfaint; Profiad PRP yn y diwydiant	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)	Profiad PRP o weithio gyda rheoli adeiladu ar gyfer % o brosiectau sy'n gofyn am gyfarfodydd	
					Tybir bod 100% o adeiladau newydd yn gofyn am gyfarfod				
					Tybir bod 0% o brosiectau adnewyddu yn gofyn am gyfarfod				
Cyfarfod cyn ymgeisio Porth 1-2	A019	Y ddau	Adnoddau	Presenoldeb mewn cyfarfod	Diwydiant	Profiad PRP o weithio gyda chyrff rheoli adeiladu a chyfarfodydd tebyg; amcangyfrif o'r amser	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
					2 ddiwrnod i'r Prif ddylunydd fynychu'r cyfarfod, gohebu a chreu cyflwyniad				
					Rheoleiddiwr				

					1.6 diwrnod i gofnodi cais a chysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub	i Fwrdd Rheoli Adeiladu gofnodi cais a hysbysu'r Gwasanaeth Tân ac Achub			
					2 ddiwrnod i fynychu, gohebu a pharatoi adborth o cyfarfodydd rhagarweiniol wedi'u rhannu rhwng rheoleiddwyr				
Porth 2	A022	Y ddau	Proffil	Cyfaint Cyflenwi	Amcangyfrifir bod gwaith Adeiladu o'r Newydd yn 2.3% o gyfanswm y stoc fesul blwyddyn	Gweler A009; A010; A011	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
					Amcangyfrifir bod gwaith adnewyddu yn 3% o'r stoc y flwyddyn				
					Prosiectau adnewyddu sy'n cael eu hystyried yn "sylweddol" ac sydd angen mynd trwy Byrth: Tybir eu bod yn 35% o bob prosiect adnewyddu fesul blwyddyn.				
Porth 2	A023	Y ddau	Proffil	Hyd y gwaith dylunio ac adeiladu	Hyd y gwaith dylunio: 6 mis	Profiad PRP o brosiectau dylunio ac adeiladu Adeiladau Risg Uchel nodweddiadol	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
					Hyd y gwaith adeiladu: 24 mis				
					Cyfanswm hyd y gwaith dylunio ac adeiladu: 30 mis				
Porth 2	A024	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Amser fesul cais	Cyfanswm yr amser ychwanegol ar gyfer y rheoleiddiwr fesul adeilad newydd: 293 awr	Gweler A027	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
Porth 2	A025	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Amser fesul cais - adnewyddu	Cyfanswm yr amser ychwanegol ar gyfer y rheoleiddiwr fesul prosiect adnewyddu:	Amcangyfrif PRP yn seiliedig ar brofiad o wahaniaeth rhwng prosiectau adeiladu o'r newydd ac adnewyddu	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
					25% o'r amser ar gyfer adeilad newydd ar gyfer gwirio cynlluniau llawn a gyflwynir				

					10% o amser adeiladu o'r newydd yn adolygu newidiadau diogelwch a gwiriadau yn ystod y gwaith adeiladu				
					Cyfanswm yr amser ychwanegol ar gyfer y rheoleiddiwr fesul prosiect adnewyddu: 40 awr				
Porth 2	A026	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Amser rheoli adeiladu gwrth-ffeithiol	Amser gwrth-ffeithiol ar gyfer swyddog Rheoli Adeiladu lleol fesul adeilad newydd: 346 awr	Adeilad newydd yn seiliedig ar amcangyfrifon o amser a ddarparwyd gan Swyddogion Rheoli Adeiladu yng Nghymru a Lloegr	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
					Amser gwrth-ffeithiol ar gyfer swyddog Rheoli Adeiladu lleol fesul prosiect adnewyddu: 104 awr				
Porth 2	A027	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Gweithgareddau Rheoleiddiwr Ychwanegol – adeilad newydd	Adolygu elfennau ychwanegol o'r cais cynllunio llawn a pharatoi adroddiad ar gyfer swyddog Bwrdd Rheoli Adeiladu: 28 awr	Amser amcangyfrifedig PRP - mewnbwn gan gyn-swyddogion rheoli adeiladu a thrafodaeth gyda 3 awdurdod lleol yng Nghymru	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)	Yn seiliedig ar amcangyfrif ymgynghorwyr o amlder ymweliadau safle i fodloni gofynion newydd/nifer o wahanol elfennau o'r adeilad/camau o'r prosiect y dylid eu harchwilio yn ddelfrydol; gwybodaeth am weithgareddau gwrth-ffeithiol; ac amcangyfrif o nifer y newidiadau diogelwch	
					Arolygiadau ac archwiliadau safle yn ystod y gwaith adeiladu: Cyfanswm 265 awr				
					19 ymweliad ychwanegol / estynedig gan swyddog rheoli adeiladu (0.5 diwrnod fesul ymweliad gan gynnwys adroddiad)				
					6 ymweliad ychwanegol / estynedig gan swyddog rheoli adeiladu (1 diwrnod fesul ymweliad gan gynnwys adroddiad)				

					13 ymweliad ychwanegol / estynedig gan beirianwyr arbenigol (1 diwrnod fesul ymweliad gan gynnwys adroddiad)				
					Hysbysiadau newid diogelwch - 8 newid diogelwch, 5.8 awr fesul hysbysiad - cyfanswm o: 46 awr				
Porth 2	A030	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Porth 2 – 3 (Adnewyddu)	Amser a chostau a aseswyd yn angenrheidiol ar gyfer arolygiadau safle a newidiadau diogelwch sylweddol rhwng Porth 2 a 3: 10% o'r amser ar gyfer adeilad newydd.	Amcangyfrif PRP yn seiliedig ar brofiad o wahaniaeth rhwng prosiectau adeiladu o'r newydd ac adnewyddu	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
				Arolygiadau Safle a newidiadau diogelwch sylweddol					
Porth 2	A031	Y ddau	Proffil	Cyfaint Cyflenwi	Amcangyfrifir bod gwaith Adeiladu o'r Newydd yn 2.3% o gyfanswm y stoc fesul blwyddyn	Gweler A009; A010; A011			
					Amcangyfrifir bod gwaith adnewyddu yn 3% o'r stoc y flwyddyn				
					Prosiectau adnewyddu sy'n cael eu hystyried yn "sylweddol" ac sydd angen mynd trwy Byrth: Tybir eu bod yn 35% o bob prosiect adnewyddu fesul blwyddyn.				
Porth 2	A032	Y ddau	Proffil	Hyd y gwaith dylunio ac adeiladu	Hyd y gwaith dylunio: 6 mis	Gweler A023			
					Hyd y gwaith adeiladu: 24 mis				
					Cyfanswm hyd y gwaith dylunio ac adeiladu: 30 mis				
Porth 2	A033	Diwydiant	Adnoddau	Amser fesul cais	Cyfanswm amser diwydiant ychwanegol fesul cais 1,070 awr (143 diwrnod)	Gweler A035			

Porth 2	A034	Diwydiant	Adnoddau	Amser fesul cais - adnewyddu	Cyfanswm yr amser ychwanegol ar gyfer diwydiant fesul prosiect adnewyddu: 138 awr (19 diwrnod) (25% o adeiladau newydd – ceisiadau, 10% o adeiladau newydd – newidiadau diogelwch ac arolygiadau safle)	Gweler A025			
Porth 2	A035	Diwydiant	Adnoddau	Gweithgareddau Ychwanegol – adeilad newydd – rhagdybiaethau allweddol	Paratoi cais Porth 2 – 2.5 diwrnod Adolygiad o'r cynlluniau llawn (pob rhan o'r rheoliadau adeiladu) – 15 diwrnod Creu Cynllun Tân ac Argyfwng - 10 diwrnod Cynllun Rheoli Newid – 1 diwrnod Cynllun Rheoli Adeiladu - 1 diwrnod Cynllun adrodd gorfodol - 0.5 diwrnod 1 diwrnod ychwanegol o ymweliadau safle bob wythnos gan arolygydd safle Prif Ddylunydd/Contractwr (ar ben y 2.5 diwrnod yn y sefyllfa wrth-ffeithiol) - 104 diwrnod Hysbysiadau newid diogelwch - 8 newid diogelwch, 10.5 awr fesul hysbysiad - cyfanswm o: 84 awr (11 diwrnod)	Profiad PRP yn seiliedig ar yr arfer cyfredol a manyleb gofynion polisi	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)	Gwneir dau fath o ragdybiaethau - yn gyntaf amcangyfrif yr amser y mae'n ei gymryd i gyflawni tasgau - megis paratoi / adolygu dogfennau ychwanegol; yn ail, rhagdybiaethau am ymweliadau safle ychwanegol ac adolygiadau yn seiliedig ar amcangyfrif o sut y bydd y diwydiant yn ymateb i atebolrwydd deiliad dyletswydd ychwanegol i sicrhau bod gwaith yn cydymffurfio	
Porth 2	A036	Diwydiant	Adnoddau			Amh.			

				Rhannu rhwng gwahanol swyddi					
--	--	--	--	------------------------------	--	--	--	--	--

9. Atodiad C: Porth 3

Gofyniad

9.1 Y gofyniad i gwblhau'r broses Porth 3 cyn meddiannaeth.

Adeiladau o fewn cwrmpas

9.2 Adeiladau Risg Uchel

Gweithgareddau tybiedig

9.3 Mae Tabl 9.1 yn nodi manylion y rhagdybiaethau cyffredin a ddefnyddir i gostio'r gweithgareddau sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofyniad Porth 3.

Tabl 9.1: Rhagdybiaethau cyffredin a ddefnyddir i gostio'r gweithgareddau sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofynion Porth 3									
Swyddogaeth	#	Rheoleiddiwr / Diwydiant	Math o ragdybiaeth	Elfen	Rhagdybiaeth	Ffynhonnell gwybodaeth	Cyfundrefn bresennol a ddefnyddir fel dirprwy	Naratif sy'n esbonio'r rhesymeg i'r rhagdybiaeth gyffredinol	RAG
Porth 3	A038	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Amser fesul cais	Cyfanswm yr amser ychwanegol ar gyfer y rheoleiddiwr fesul adeilad newydd: 52 awr	Gweler A039			
Porth 3	A039	Rheoleiddiwr	Adnoddau	Gweithgareddau (adeilad newydd)	Archwiliadau fflatiau – 23 awr Adolygiad edau aur - 8 awr Arolygiad trosglwyddo adeilad llawn – 15 awr Adolygiad o'r cynllun tân ac argyfwng – 4 awr	Profiad PRP (gan gynnwys mewnbwn gan gyn-swyddogion rheoli adeiladu)	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
Cofrestru		Rheoleiddiwr	Adnoddau		gwiriadau cofrestru, adolygiadau a chyhoeddi				

					tystysgrif gymeradwyo Porth 3 – 5 awr				
Porth 3	A040	Rheoleiddiwr	Adnoddau			Amh.	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
Porth 3	A043	Diwydiant	Adnoddau	Amser fesul cais	Cyfanswm yr amser ychwanegol ar gyfer y datblygwr fesul adeilad newydd: 319 awr (43 diwrnod)	Gweler A045	Yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol arolygwyr adeiladu blaenorol sy'n gweithio o fewn y maes; hefyd profiad uniongyrchol yn seiliedig ar nifer o brosiectau dylunio ac adeiladu amlfeddiannaeth		
Porth 3	A044	Diwydiant	Adnoddau	Amser fesul cais	Cyfanswm yr amser ychwanegol ar gyfer y rheoleiddiwr fesul prosiect adnewyddu: 0 awr	Profiad PRP	Rheolaeth Adeiladu (Awdurdod Lleol)		
